**CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL (CYSAG)**

Cofnodion cyfarfod y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG) a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Dref, Rhuthun ar Ddydd Mercher, 7fed Chwefror, 2001 am 10.00 a.m.

**YN BRESENNOL**

**Yn cynrychioli Cyngor Sir Ddinbych**

Y Cynghorwyr S. Drew, K. Hawkins, D. Jones, M.M. Jones, T. Parry, F. Shaw a K.P. Stevens

**Yn cynrychioli Cyd-Bwyllgor Amodau Athrawon Sir Ddinbych**

P. Bryer, M.B. Lloyd ac N.C. Roberts

**Yn cynrychioli Enwadau Crefyddol**

M. Colbert, H. Ellis, M. Evans, S. Harris, J. Kirkham a'r Parch. J. Owen

**HEFYD YN BRESENNOL**

Arolygydd/Ymgynghorydd Addysg Grefyddol (AG), Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes a Swyddog Gweinyddol (K.E. Jones)

**DERBYNIWYD YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB ODDI WRTH**

Y Chwaer Elizabeth, S. Flavell, Y Parch. Athro L.J. Francis, C. Thomas, Y Parch. J.P. Williams a'r Cynghorydd R. Ll. Williams

**CYFLEUSTERAU CYFIEITHU**

Rhoddodd y Cadeirydd wybod bod cyfieithydd y Cyngor wedi'i dal yn ôl a chytunwyd, gan nad oedd y cyflwyniad ar y ddarpariaeth ar gyfer AG gan Arolygydd/Ymgynghorydd AG ag angen cyfleusterau cyfieithu, bod yr eitem hon i'w symud yn ei blaen ar yr Agenda.

**1068. CYFLWYNIAD - DARPARIAETH AR GYFER ADDYSG GREFYDDOL**

(Daethpwyd â'r eitem hon yn ei blaen ar yr Agenda gyda chaniatâd y Cadeirydd).

Cyflwynodd Arolygydd/Ymgynghorydd AG adroddiad llafar, gyda chymorth cyfrifiadur pen glin a defnydd sleidiau cyflwyno, ar y ddarpariaeth ar gyfer AG. Hysbyswyd yr Aelodau bod Arolygydd/Ymgynghorydd AG a Ms Gill Vaisey wedi rhoi'r cyflwyniad ar y cyd i CCCYSAG yn y cyfarfod diwethaf, a gynhaliwyd ar 22ain Tachwedd, 2000 a theimlid y byddai'n fuddiol i CYSAGau lleol dderbyn y cyflwyniad hefyd.

Hysbyswyd yr Aelodau o'r ymagweddau at y corff a darpariaeth AG mewn ysgolion cynradd ac mewn ysgolion uwchradd ynghyd â nifer o faterion i'w hystyried ym mhob Cyfnod Allweddol o 1 i 5. Rhoddwyd sylw i broblemau cynnwys AG mewn dull dysgu sy'n seiliedig ar destunau a'r angen i sicrhau bod y cysylltiadau rhwng AG a Chysylltiadau Pwnc y Cwricwlwm Cenedlaethol yn briodol ac yn ystyrlon i alluogi i AG gael ei datblygu a'i gwella. Fe bwysleisiwyd er bod darpariaeth y cwricwlwm yn bwysig, bod dysgu effeithiol a chyrhaeddiad yn ddibynnol ar gynllunio ac addysgu o ansawdd da. Cyfeiriwyd at yr hyn sy'n golygu AG dda ac roedd yn cynnwys y gofyn am gynllun gwaith strwythuredig; pwysigrwydd cynllunio priodol mewn testunau; adnoddau ar gyfer dysgu; asesu a chofnodi a gwerthuso a datblygu. I gloi amlinellodd Arolygydd/Ymgynghorydd AG sut y gellid cyrraedd yr amcanion i gyflawni AG dda.

Cyfeiriodd y Cynghorydd T.M. Parry at ei rôl fel Cadeirydd Pwyllgor Adolygu Polisi ac Archwilio Dysgu Gydol Oes a theimlai y byddai'n fuddiol i aelodau'r Pwyllgor Dysgu Gydol Oes pe byddai Arolygydd/Ymgynghorydd AG yn cyflwyno adroddiad iddynt mewn cyfarfod yn y dyfodol. Dywedodd

Arolygydd/Ymgynghorydd AG y byddai'n fodlon dod i gyfarfod o'r Pwyllgor Dysgu Gydol Oes yn y dyfodol i roi anerchiad i'r Aelodau.

Mewn ymateb i gwestiynau gan aelodau cadarnhaodd Arolygydd/Ymgynghorydd AG fod hyfforddiant HMS yn cael ei ddarparu i'r athrawon yn yr ysgolion hynny ble'r oedd diffyg staff AG arbenigol; rôl CYSAG oedd annog, cefnogi a chynghori a bod y Penaethiaid a'r Llywodraethwyr yn gyfrifol yn y pen draw am sicrhau darpariaeth AG ddigonol o fewn ysgolion.

Diolchodd y Cadeirydd i Arolygydd/Ymgynghorydd AG am ei gyflwyniad diddorol ac addysgiadol.

Yn y fan hon (10.40 a.m.) torrwyd y cyfarfod am bum munud i ganiatáu i'r Aelodau gael lluniaeth.

Ar ôl ailddechrau'r trafodion trafododd yr aelodau nifer o ystyriaethau a oedd yn codi o'r cyflwyniad a mynegwyd pryder ganddynt nad oedd nifer o ysgolion o fewn y Sir yn cwrdd â'r gofynion statudol o ran darparu AG o fewn ysgolion. Cytunwyd bod llythyr i'w anfon at yr ysgolion hynny nad oeddynt yn cwrdd â'r gofynion angenrheidiol yn mynegi pryder CYSAG Sir Ddinbych ac yn eu hatgoffa o'r gofyniad cyfreithiol o ran darparu AG o fewn eu hysgolion.

Cylchredwyd copïau o'r sleidiau cyflwyno y cyfeiriwyd atynt gan Arolygydd/Ymgynghorydd AG i'r Aelodau yn y cyfarfod.

***PENDERFYNWYD***:-

*(a)* *derbyn a chydnabod cyflwyniad llafar Arolygydd/Ymgynghorydd AG, a*

*(b)* *bod llythyr i'w anfon at yr ysgolion hynny nad ydynt yn cwrdd â'r gofynion statudol o ran darparu AG i fynegi pryder CYSAG Sir Ddinbych ac i'w hatgoffa o'r gofyniad cyfreithiol o ran darparu AG o fewn eu hysgolion.*

Yn y fan hon croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd F. Shaw i'w gyfarfod cyntaf o CYSAG Sir Ddinbych a hysbysodd yr Aelodau fod y Cynghorydd Shaw wedi cymryd lle'r Cynghorydd E.A. Owens fel cynrychiolydd yr AALl.

**1069. <u>COFNODION</u>**

Cyflwynwyd Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10fed Hydref, 2000 (a gylchlythyrwyd yn flaenorol), fel y'u cymeradwywyd gan y Cyngor Sir ar 28ain Tachwedd, 2000.

**Materion yn Codi**:-

Tudalen 278 - Eitem Rhif 596 - Arolwg o'r Maes Llafur Cytûn - Hysbysodd Arolygydd/Ymgynghorydd AG yr Aelodau fod fersiwn Saesneg y Maes Llafur Cytûn drafft wedi'i anfon i ysgolion yr wythnos flaenorol ac y byddai'r fersiwn Gymraeg yn cael ei hanfon ymlaen i ysgolion yr wythnos honno gan y bu oedi gyda'r cyfieithiad. Roedd slip ateb wedi'i anfon gyda'r Maes Llafur Cytûn i ysgolion ei gwblhau a'i ddychwelyd. Roedd cynllun y fersiwn ddrafft wedi efelychu pynciau eraill y cwricwlwm cenedlaethol ac roedd dylunydd wedi'i gomisiynu i ddylunio clawr blaen y Maes Llafur Cytûn ar gyfer Awdurdodau Addysg Lleol Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam.

Tudalen 279 - Eitem Rhif 599 - Cymdeithas Cymru CYSAGau - Rhoddodd y Cadeirydd wybod ei fod wedi'i ddewis yn y cyfarfod diwethaf, ynghyd â Mrs S. Harris a Mrs M.B. Lloyd, i fynychu cyfarfod CCCYSAG a gynhaliwyd ar 22ain Tachwedd, 2000. Yn anffodus nid oedd wedi derbyn unrhyw fanylion pellach ynghylch y cyfarfod hwn ac felly nid oedd wedi'i fynychu. Cadarnhaodd Mrs S. Harris hefyd nad oedd hi'n ymwybodol ei bod hi wedi'i henwebu i fod yn bresennol yn y cyfarfod. Gofynnodd Aelodau eu bod i'w hatgoffa bod angen iddynt fod yn bresennol mewn unrhyw gyfarfodydd CCCYSAG yn y dyfodol.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn y cofnodion.*

**1070. ADRODDIADAU AROLYGU: ESTYN - ANELU AM RAGORIAETH MEWN AG**

Cyflwynodd Arolygydd/Ymgynghorydd A.G. lyfryn (a gylchlythyrwyd yn flaenorol) i'r aelodau ei ystyried dan y teitl 'Anelu am Ragoriaeth mewn Addysg Grefyddol', a gynhyrchwyd gan Estyn, a oedd yn amlygu agweddau ar ragoriaeth mewn addysgu AG. Cadarnhaodd fod y ddogfen wedi'i hanfon i bob ysgol gynradd a'i bod yn cynnwys digonedd o wybodaeth ddefnyddiol ynghylch y dulliau dysgu a gwerth AG wedi'i seilio ar y Maes Llafur Cytûn yng Nghymru. Aeth â'r Aelodau drwy'r llyfryn yn fyr a chyfeiriodd at y prif themâu sy'n codi ohono, yn cynnwys safonau mewn AG; rhagoriaeth mewn addysgu AG; ffactorau eraill sy'n cyfrannu at ragoriaeth mewn AG; sgiliau allweddol a'r Cwricwlwm Cymreig a dywedodd fod y safonau mewn AG wedi gwella.

Cyfeiriodd aelod at y defnydd o ddefnydd QCA a geir oddi ar y rhyngrwyd sy'n cael ei ddefnyddio gan lawer o ysgolion a chadarnhaodd Arolygydd/Ymgynghorydd AG y gellid cael defnydd enghreifftiol da o'r ffynhonnell yma ond roedd gofynion model QCA wedi'u seilio ar y gofynion Seisnig ac roedd angen i ysgolion fod yn ymwybodol o'r gofynion fel yr oeddynt yng Nghymru a dethol defnydd priodol yn unol â hynny. Cyfeiriodd yn arbennig at ddiffyg y dimensiwn Cymreig/Y Cwricwlwm Cymreig.

Mewn ymateb i gwestiwn gan yr is-gadeirydd ynghylch y cylch oedran i ddisgyblion y dysgir AG iddynt mewn ysgolion, cadarnhaodd Arolygydd/Ymgynghorydd AG y dylid dysgu AG i'r holl ddisgyblion sydd wedi'u cofrestru yn yr ysgol, yn cynnwys ysgol feithrin, o 3 oed i 18 oed. O'r herwydd dylid cyflwyno'r disgyblion hynny sydd wedi'u cofrestru yn yr ysgol o 3 oed i AG fel rhan o'u profiad dysgu. Cadarnhaodd mai cyfrifoldeb yr ysgol unigol fyddai mynd i'r afael â mater ystod oedran y disgyblion i sicrhau eu bod yn cwrdd â'r gofynion hynny. O ran Cydaddoli ar gyfer y blynyddoedd cynnar dywedodd fod NAPfRE yn aros am ymateb gan ACCAC a Chynulliad Cymru a byddai yntau yn gofyn am eglurhad ar y mater hwn hefyd. O ystyried y gofyniad cyfreithiol i ddysgu AG i ddisgyblion o 3 oed gofynnodd yr is-gadeirydd fod y mater i'w ddwyn at sylw ysgolion i sicrhau cydymffurfiad yn unol â'r amod.

Cyfeiriodd aelod at y term a ddefnyddir yn fersiwn Gymraeg y ddogfen fel "credwr/credwyr" a dywedodd ei bod yn well ganddo i'r term "crediniwr/credinwyr" gael ei ddefnyddio. Cytunodd yr Aelodau fod llythyr i'w anfon at Estyn yn cymeradwyo cynnwys y ddogfen ac yn tynnu sylw at y term dewisol fel y'i cynigiwyd gan aelodau.

***PENDERFYNWYD**:-*

*(a) derbyn a chydnabod y ddogfen a gynhyrchwyd gan Estyn dan y teitl "Anelu am Ragoriaeth mewn Addysg Grefyddol", a*

*(b) bod llythyr i'w anfon at Estyn ar ran CYSAG Sir Ddinbych yn cymeradwyo'r ddogfen ynghyd â'r term dewisol a gynigiwyd gan aelodau fel y cyfeiriwyd ato uchod.*

**1071. ADRODDIADAU AROLYGU: DADANSODDI ADRODDIADAU AR YSGOLION**

Cyflwynodd Arolygydd/Ymgynghorydd AG adroddiad (a gylchlythyrwyd yn flaenorol) ar y sylwadau cadarnhaol a negyddol ynghylch y datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol a'r AG a arolygwyd mewn tair ysgol rhwng mis Mai, 2000 a mis Hydref, 2000.

Aeth â'r Aelodau drwy'r adroddiad a chadarnhaodd fod y sylwadau cadarnhaol o fewn adroddiad arolygu pob ysgol yn gorbwyso'r sylwadau negyddol o bell ffordd.

Dywedodd Aelod fod y sylwadau ar dudalen un yr adroddiad yn gwrth-ddweud y sylwadau a wnaed ar dudalen pump yr adroddiad a holodd ynghylch yr anghysondeb. Ymatebodd Arolygydd/ Ymgynghorydd AG fod gwrthdrawiadau o'r fath wedi'u nodi mewn adroddiadau blaenorol a chyfeiriodd at yr anhawster o werthuso datblygiad Ysbrydol Moesol Cymdeithasol Diwylliannol i ffurfio casgliad terfynol. Nododd sylwadau'r Aelod a chytunodd fod angen i'r adroddiadau arolygu fod yn gyson o ran y sylwadau a wneir.

Teimlai un o gynrychiolwyr yr AALl y dylai cefndir yr ysgolion a arolygwyd gael ei gynnwys o fewn yr adroddiadau, gan ddarparu manylion megis pa un a oedd yr ysgol o'r sector cynradd ynteu'r sector uwchradd; nifer y disgyblion sydd wedi'u cofrestru yn yr ysgol a phwy a oedd wedi gwneud pob arolygiad. Cadarnhaodd Arolygydd/Ymgynghorydd AG ei bod yn bosibl trefnu i adroddiadau arolygu ysgolion yn y dyfodol ddarparu'r wybodaeth honno.

Mewn ymateb i gwestiwn un o gynrychiolwyr yr AALl ynghylch rhaglennu arolygiad ysgolion, dywedodd Arolygydd/Ymgynghorydd AG fod Estyn yn ymdrin â rhaglennu arolygiadau ysgolion ar draws Cymru a bod y rhaglen arolygu yn mynd yn ei blaen, gyda phob ysgol unigol yn cael ei harolygu pob pum mlynedd. Rhoddodd wybod i'r Aelodau fod Estyn yn ystyried newid y broses arolygu yn y dyfodol.

Yn ystod y drafodaeth a ddilynodd teimlai Aelodau fod adroddiad arolygu'r ysgol yn adlewyrchu'n dda iawn ar y Sir ac roeddynt yn hapus derbyn yr adroddiad ac at ei gilydd roeddynt yn fodlon ar y canfyddiadau fel y'u cynhwyswyd o fewn yr adroddiad. Yn unol â'r drefn arferol cadarnhaodd Arolygydd/Ymgynghorydd AG y byddid yn ysgrifennu at yr ysgolion a arolygwyd yn eu llongyfarch ar eu hadroddiadau ac yn cynnig unrhyw wasanaethau o ran mynd i'r afael â diffygion a materion allweddol.

***PENDERFYNWYD** derbyn yr adroddiad gan Arolygydd/Ymgynghorydd AG.*

**1072. <u>AROLWG O'R MAES LLAFUR CYTÛN</u>**

Anerchodd Arolygydd/Ymgynghorydd A.G. yr aelodau a'u hysbysu bod Cyd-Gynhadledd y Maes Llafur Cytûn i fod i'w chynnal ar 19eg Mawrth, 2001 yn cychwyn am 10.00 a.m. yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug a phwysleisiodd pa mor bwysig oedd hi fod digon o aelodau o bob grwp cynrychioliadol ar CYSAG yn bresennol. Cadarnhaodd y byddid yn gwneud cyflwyniad i'r Aelodau ynghylch y newidiadau arfaethedig i'r maes llafur presennol ar ba un y byddai pob CYSAG unigol yn cyfarfod ar wahân i wneud penderfyniad terfynol. Byddai dyddiad gweithredu'r newidiadau hynny a gytunwyd yn cychwyn mis Medi, 2001. Cadarnhaodd Arolygydd/Ymgynghorydd AG y byddai'r Clerc i CYSAG yn ysgrifennu at aelodau yn y man yn manylu ar drefniadau Cyd-Gynhadledd y Maes Llafur Cytûn ac y byddid yn gofyn i'r aelodau gadarnhau eu bod ar gael i fod yn bresennol yn y cyfarfod.

***PENDERFYNWYD** derbyn yr adroddiad llafar gan Arolygydd/Ymgynghorydd AG.*

**1073. <u>CYMDEITHAS CYMRU CYSAGAU</u>**

Cyflwynodd Arolygydd/Ymgynghorydd AG lyfryn (a gylchlythyrwyd yn flaenorol) er sylw'r aelodau dan y teitl 'Felly Rydych yn Ymuno â'ch CYSAG lleol' a gynhyrchwyd gan Gyd-Bwyllgor Polisi Addysg Eglwysi, grwp cyd-drefnu o CYTUN ac Eglwysi Gyda'i Gilydd yn Lloegr, mewn ymgynghoriad manwl â Chymdeithas Swyddogion Addysg a Chymdeithas Cymru CYSAGau. Roedd y llyfryn wedi'i gynllunio fel arweiniad i aelodau CYSAG i alluogi aelodau i weithio o fewn CYSAG i gefnogi ac annog ysgolion lleol i sicrhau safonau uchel mewn AG. Mae'r arweiniad yn cyfeirio hefyd at y ddogfennaeth gyfreithiol briodol ac yn enwi defnydd cefnogi ar gyfer yr aelodau.

Cymeradwyodd Arolygydd/Ymgynghorydd AG y llyfryn a fyddai fe deimlai yn fuddiol i aelodau wrth ymgymryd â'u rôl a chadarnhaodd ei fod wedi cael copïau ychwanegol o'r llyfryn, a fyddai'n cael eu dosbarthu i aelodau newydd.

Rhoddodd Mrs M.B. Lloyd, un o gynrychiolwyr CYSAG Sir Ddinbych ar CCCYSAG, adroddiad ar y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 22ain Tachwedd, 2000 yng Nghasnewydd fel a ganlyn:-

(i) cyflwyniad a roddwyd yn y cyfarfod gan Arolygydd/Ymgynghorydd AG a Gill Vaisey ar ddarparu AG, yn amlygu problemau cyflwyno AG o fewn ysgolion; cafwyd bod y cyflwyniad yn ysgogi meddwl ac roedd wedi arwain at drafodaeth fanwl arno wedyn;

(ii) cyflwyniad a roddwyd yn y cyfarfod gan Ms Helen Arthur o Adain Hyfforddiant ac Arweinyddiaeth y Cynulliad Cenedlaethol a oedd wedi hysbysu'r aelodau nad oedd yr ystadegau swyddogol yn dangos dim diffyg staff AG ond roedd hi wedi cydnabod bod y gwirionedd yn wahanol; cadarnhaodd hefyd nad yw cymaint â 50% o fyfyrwyr sy'n cwblhau eu hyfforddiant i fod yn arbenigwyr AG ysgolion cynradd yn mynd yn eu blaenau i swyddi dysgu, a

(iii) cyflwyniad a roddwyd yn y cyfarfod gan Ms Tina Renshaw o RETRI a oedd wedi hysbysu'r aelodau fod gwefan wedi'i sefydlu y gallai ysgolion ei chyrchu a chael gwybodaeth ynghylch AG a'i bod yn cael ei defnyddio hefyd i hysbysebu manylion swyddi dysgu mewn AG.

Hysbysodd Arolygydd/Ymgynghorydd AG yr aelodau nad oedd wedi derbyn copïau o gofnodion CCCYSAG mewn pryd i'w cylchredeg yn y cyfarfod ond cadarnhaodd y byddai'r cofnodion yn cael eu hanfon ymlaen atynt maes o law. Hysbysodd yr aelodau fod y Mudiad Addysg Gristnogol wedi gofyn am iddynt gael cynrychiolaeth ar CYSAG Wrecsam a chytunodd yr aelodau fod gwahoddiad i'w estyn i'r Mudiad Addysg Gristnogol i enwebiad gael ei gyfethol ar CYSAG Sir Ddinbych.

***PENDERFYNWYD***:-

*(a)* *derbyn yr adroddiad llafar gan gynrychiolydd CYSAG Sir Ddinbych ar CCCYSAG, a*

*(b)* *estyn gwahoddiad i'r Mudiad Addysg Gristnogol enwebu cynrychiolydd i gael ei gyfethol ar CYSAG Sir Ddinbych*

**1074. CYFLWYNO CYFARWYDDWR DYSGU GYDOL OED**

Cyflwynwyd a chroesawyd Mrs. Sioned Bowen, Cyfarwyddwr Corfforaethol Dysgu Gydol Oes, a oedd wedi cychwyn ar ei swydd gyda'r Cyngor yn ddiweddar, i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.

Anerchodd Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes yr aelodau a diolchodd iddynt am y croeso cynnes ac ymddiheurodd ei bod yn hwyr yn cyrraedd. Rhoddodd wybod i'r aelodau ei bod wedi dod ar draws CYSAG gyntaf pan symudodd hi o Lundain i Bowys yn 1984 a chadarnhaodd fod ganddi lawer iawn o ddiddordeb yng ngwaith CYSAG.

Estynnodd y Cadeirydd ddymuniadau gorau CYSAG Sir Ddinbych i'r Cyfarwyddwr yn ei swydd newydd.

Yn y fan hon diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau am eu presenoldeb a'r diddordeb a ddangoswyd ganddynt yn y cyfarfod.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.35 a.m.

***********

# DADANSODDIAD O ADRODDIADAU AROLYGU

## CYSAG Sir Ddinbych

## Detholiad ar gyfer 3ydd Gorffennaf 2001

**3 Ysgol:**

| Ysgol | Ar. Cof. | Ar. YMCD | Ar. AG | Dyddiad |
|---|---|---|---|---|
| CS Stryd Rhos, Rhuthun | Dr Stuart Humphreys | Dr Stuart Humphreys | Eirian Hughes | 22-26ain Ionawr 2001 |
| Mae gan yr ysgol 164 disgybl ar y gofrestr o 4-11 oed, sydd gan mwyaf o gartrefi Saesneg eu hiaith, y mae'r ysgol yn eu disgrifio'n economaidd ddifreintiedig. Mae gan naw y cant o'r disgyblion hawl i brydau ysgol am ddim a chlustnodir bod gan ychydig dros naw y cant anghenion addysgol arbennig. Mae 7 o athrawon amser llawn ac 1 athrawes ran-amser yn yr ysgol. | | | | |
| Glyndyfrdwy | Mr D M Gray | Miss B J H Davies | Miss B J H Davies | 6ed-7fed Chwefror |
| Ysgol wledig fechan yw hon a hi yw'r unig ysgol naturiol Gymraeg yn yr ardal. Cymraeg yw'r cyfrwng i blant dan bump a CA1; mae addysgu CA2 yn ddwyieithog. Disgrifia'r ysgol ei dalgylch fel un nad yw naill ai'n llewyrchus nac yn economaidd ddifreintiedig. Mae 39 o ddisgyblion rhwng 3 a 11 mlwydd oed. Mae gan ddeuddeg a hanner y cant hawl i brydau ysgol am ddim, a chofrestrir bod gan 6 phlentyn (15%) anghenion addysgol arbennig. Mae 2 o athrawon amser llawn ac 1 athrawes ran-amser yn yr ysgol. | | | | |
| Ysgol Glan Clwyd, Llanelwy | Gareth W Roberts | Heddwyn Evans | Heddwyn Evans | 5-8 Mawrth 2001 |
| Ysgol gyfun gymunedol Gymraeg ddynodedig yw'r ysgol i ddisgyblion 11-19 mlwydd oed. Mae 800 ar y gofrestr, y daw 67% ohonynt o gartrefi ble siaredir Saesneg yn bennaf. Y dalgylch yw'r rhimyn arfordirol o Abergele i Dreffynnon, yn ogystal â rhannau isaf Dyffryn Clwyd ac ardaloedd pellaf mor bell â Dinbych a Llanrhaeadr. Dywed yr ysgol fod hanner y disgyblion yn dod o ardaloedd nad ydynt naill ai'n llewyrchus nac yn economaidd ddifreintiedig, chwarter o ardaloedd economaidd ddifreintiedig, tra daw chwarter o ardaloedd cymharol llewyrchus. Mae saith y cant wedi'u cofrestru i dderbyn prydau am ddim, tra fod gan 2% ddatganiad o anghenion AAA , ac mae 15% wedi'u clustnodi ar y côd ymarfer. Mae 43 o athrawon amser llawn a 6 o athrawon rhan-amser yn yr ysgol. | | | | |

## DATBLYGIAD YSBRYDOL, MOESOL, CYMDEITHASOL A DIWYLLIANNOL

*Crybwyllwyd mewn materion Allweddol:* **2 Ysgol**

> "sicrhau bod yr ysgol yn cwrdd â'r arweiniad a amlinellir yng nghylchlythyrau priodol CCC ynglyn â chydaddoli ………..." *(Glyndyfrdwy)*
>
> "sicrhau bod y gofynion statudol ar gyfer cydaddoli'r holl ddisgyblion yn cael eu cwrdd." *(Glan Clwyd)*

SYLWADAU CADARNHAOL:

Darpariaeth: **3 Ysgol**

- yn dda. *(Stryd Rhos)*
- mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad cymdeithasol a moesol yn dda; mae datblygiad ysbrydol a diwylliannol yn foddhaol. *(Glyn Dyfrdwy)*

- mae datblygiad cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn dda iawn; mae eu datblygiad moesol yn dda ac mae eu datblygiad ysbrydol yn foddhaol. *(Glan Clwyd)*

Y Dimensiwn Cymreig / Cwricwlwm Cymreig:

- datblyga'r disgyblion ymwybyddiaeth o ddiwylliant Cymreig …….. maent yn cymryd rhan yn yr Eisteddfod ac ymuna disgyblion â Gwersyll Glan Llyn. *(Stryd Rhos)*

- mae'r ysgol yn rhoi sylw boddhaol i'r rhan fwyaf o agweddau ar ddiwylliant a threftadaeth Cymru. *(Glyndyfrdwy)*

- mae ethos yr ysgol yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y disgyblion o Gymru a'i threftadaeth ddiwylliannol. Gwna'r ysgol bob ymdrech i sicrhau meistrolaeth a defnydd dyddiol ar y Gymraeg drwy'r cyrsiau, y cyfleoedd cymdeithasol a diwylliannol a'r gweithgareddau a drefnir yn y gymuned ysgol hon. Mae'r disgyblion yn cymryd rhan mewn….. eisteddfodau lleol a chenedlaethol. *(Glan Clwyd)*

Gwerthoedd a hyrwyddir: **3 Ysgol**

- (mae'r disgyblion) yn trin eiddo ac offer gyda gofal a pharch. *(Stryd Rhos)*
- hyrwyddir gwerthoedd cadarnhaol. *(Glyndyfrdwy)*
- dengys y disgyblion barch at bobl ac eiddo ….. (ac) mewn gwersi AG, Addysg Bersonol a Chymdeithasol, Saesneg a Chymraeg. Caiff agweddau cadarnhaol tuag at bobl eraill, goddefgarwch eu meithrin. *(Glan Clwyd)*

Gwybodaeth am y da a'r drwg: **3 Ysgol**

- datblyga'r disgyblion ddealltwriaeth resymegol o'r da a'r drwg. *(Stryd Rhos)*
- mae'r disgyblion (yn gallu) gwahaniaethu rhwng y da a'r drwg *(Glyndyfrdwy)*
- mewn gwersi AG, Addysg Bersonol a Chymdeithasol, Saesneg a Chymraeg …..(caiff) dealltwriaeth o'r gwahaniaeth rhwng y da a'r drwg ei feithrin. *(Glan Clwyd)*

Ymwybyddiaeth o/ gwybodaeth am ddiwylliannau / draddodiadau eraill **3 Ysgol**

- datblyga'r disgyblion ymwybyddiaeth … a gwerthfawrogiad o werthoedd a thraddodiadau diwylliannau eraill. Mae'r ysgol wedi llunio cysylltiadau cynhyrchiol gyda phlant yn Japan. *(Stryd Rhos)*
- cyflwynir y disgyblion i grefyddau heblaw Cristnogaeth a sylweddolant fod yna arferion a chredoau eraill i'w cael o fewn y gymuned genedlaethol a rhyngwladol ehangach. *(Glyndyfrdwy)*
- caiff gorwelion y disgyblion eu hehangu trwy gyfrwng nifer sylweddol o ymweliadau cenedlaethol, Ewropeaidd a byd-eang. Mae cysylltiadau helaeth â gwledydd eraill, er enghraifft, Nepal ac Iwerddon. Mae ymweliadau â gwledydd tramor ac ymweliadau gan artistiaid o wahanol wledydd a diwylliannau yn cyfrannu'n arwyddocaol at addysg amlddiwylliannol y disgyblion. Mae'r ysgol wedi drafftio cais i gael ei chydnabod yn swyddogol fel ysgol ryngwladol. *(Glan Clwyd)*

Ansawdd perthynas **3 Ysgol**

- mae'r ysgol yn gymuned drefnus ac mae'r berthynas rhwng disgyblion ac athrawon yn dda iawn. *(Stryd Rhos)*
- mae perthynas dda yn bodoli rhwng y staff a'r disgyblion ac mae'n cyfrannu'n arwyddocaol at ddatblygiad ymwybyddiaeth foesol gadarn. *(Glyndyfrdwy)*
- mae perthynas dda iawn rhwng y disgyblion eu hunain a rhyngddynt hwy a'u hathrawon. *(Glan Clwyd)*

Awyrgylch cyffredinol **3 Ysgol**

- mae gan yr ysgol awyrgylch gofalgar a chefnogol ble mae'r disgyblion yn datblygu … *(Stryd Rhos)*
- mae'r ysgol yn gymuned hapus a gofalgar ble mae'r disgyblion bob amser yn gwrtais a pharchus. *(Glyndyfrdwy)*
- mae'r ysgol yn gymuned drefnus, hapus a gofalgar. *(Glan Clwyd)*

Datblygiad Ysbrydol **2 Ysgol**

- mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol disgyblion yn effeithiol trwy gydaddoli, gwasanaethau dosbarth ac AG. *(Stryd Rhos)*
- datblygir ymwybyddiaeth ysbrydol disgyblion trwy waith mewn AG, 'Clwb Sblash' ac addoli ar y cyd. *(Glan Clwyd)*

Datblygiad Cymdeithasol **2 Ysgol**

- mae chwaraeon ac ymweliadau addysgol yn cynorthwyo datblygiad cymdeithasol y disgyblion. *(Glyndyfrdwy)*
- datblygir ymwybyddiaeth gymdeithasol disgyblion trwy nifer o weithgareddau yn yr ysgol, yn y gymuned leol ac yn fyd-eang. *(Glan Clwyd)*
- mae'r ysgol yn anelu at feithrin disgyblion a fydd yn aelodau hyderus, cyfrifol a dibynadwy o gymdeithas. Mae Cyngor yr ysgol, y system berffaith, profiad gwaith ac ymwelwyr â'r ysgol, i gyd yn cyfrannu at ddatblygiad cymdeithasol y disgyblion. *(Glan Clwyd)*

Cyfraniad at ddatblygiad YMCD **2 Ysgol**

- trwy gydaddoli, gwasanaethau dosbarth ac AG. *(Stryd Rhos)*
- trwy addoli mewn AG, 'Clwb Sblash', ac addoli ar y cyd. Mae nifer o bynciau'r CC megis Cymraeg, Saesneg a chelf, hefyd yn cyfrannu at y dimensiwn ysbrydol. *(Glan Clwyd)*

Cyfraniad at elusennau ac achosion da **2 Ysgol**

- mae'r disgyblion yn cyfrannu at elusennau yn lleol ac yn genedlaethol ac mae ganddynt ddealltwriaeth o anghenion y llai ffodus o fewn cymdeithas. *(Glyndyfrdwy)*

- trwy eu cefnogaeth i nifer fawr o elusennau cenedlaethol, megis Diwrnod Trwyn Coch, ac elusennau lleol megis Cronfa'r Samariad Trugarog a Sant

  Kentigen, hosbis lleol, dangosant ymwybyddiaeth o blant a phobl llai ffodus na hwy eu hunain. *(Glan Clwyd)*

<u>Gweithio'n Gydweithrediadol / Gydweithredol</u> **2 Ysgol**

- ymateba'r disgyblion yn dda tuag at ei gilydd wrth weithio'n gydweithrediadol mewn grwpiau. *(Stryd Rhos)*
- mae'r ysgol yn atgyfnerthu agweddau moesol y disgyblion trwy gynnig cyfleoedd iddynt gydweithredu mewn gwersi ac mewn gweithgareddau diwylliannol a chymdeithasol. *(Glan Clwyd)*

<u>Ansawdd gweithredoedd o gydaddoli</u> **1 Ysgol**

- trefnir gwasanaeth wythnosol ar gyfer pob blwyddyn. Mae'r gwasanaethau'n drefnus ac yn cynnwys cyflwyniadau addas gan ddisgyblion yn cael eu cefnogi gan aelodau o'r staff uwch ….. Ar y diwrnodau pan nad yw'r disgyblion yn mynychu gwasanaethau blwyddyn, bwriedir cynnal gwasanaeth ym mhob dosbarth. Paratowyd canllawiau priodol ar gyfer y cydaddoli a gynhelir mewn ystafelloedd dosbarth. Ble digwydd addoli, mae ei ansawdd yn amrywio o dda … nodweddir y gwasanaethau gorau gan gyfraniad cadarnhaol gan yr athrawon a mewnbwn ystyrlon gan y disgyblion. *(Glan Clwyd)*

<u>Datblygiad Diwylliannol</u> **1 Ysgol**

- mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad diwylliannol y disgyblion yn dda. *(Stryd Rhos)*

<u>Cyfleoedd i drafod materion moesol</u> **1 Ysgol**

- mae cyfleoedd i drafod materion moesol mewn AG, Addysg Bersonol a Chymdeithasol, Saesneg a Chymraeg. *(Glan Clwyd)*

<u>Cyfleoedd ar gyfer menter / cyfrifoldeb</u> **1 Ysgol**

- defnyddia'r disgyblion eu menter ac ymatebant yn dda tuag at ei gilydd. *(Stryd Rhos)*

<u>Gweithgareddau allgyrsiol</u> **1 Ysgol**

- mae'r disgyblion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol o fewn gemau, cerddoriaeth a drama, yn cymysgu'n dda yn gymdeithasol ac yn cydweithredu ar draws yr ystod oedran. *(Glan Clwyd)*
- mae'r disgyblion yn cymryd rhan mewn perfformiadau cyhoeddus, yn cynnwys eisteddfodau lleol a chenedlaethol, a grwpiau lleisiol ac offerynnol. *(Glan Clwyd)*

Polisi / Arfer mewn perthynas â chytgord hiliol **1 Ysgol**

- mae’r ysgol yn gefnogol iawn i ddisgyblion o gefndir hiliol gwahanol a chymerir gofal mawr i sicrhau eu bod yn cyfranogi’n llawn ac yn hyderus o holl weithgareddau’r ysgol. *(Stryd Rhos)*

SYLWADAU NEGYDDOL:

Cwrdd â gofynion statudol ar gyfer cydaddoli **2 Ysgol**

- nid yw’r ysgol yn cwrdd â’r gofynion statudol trwy bob amser gyflenwi’r disgyblion â gweithred ddyddiol o addoli. Cynhelir gwasanaeth ysgol gyfan unwaith yr wythnos ond mae anghysonderau o ran gwasanaethau dosbarth. *(Glyndyfrdwy)*
- mewn nifer o ddosbarthiadau nid oes dim addoli ar y cyd, yn groes i’r gofynion statudol. *(Glan Clwyd)*

Ansawdd gweithredoedd o gydaddoli **1 Ysgol**

- ble mae addoli’n digwydd (mewn gwasanaethau dosbarth) mae ei ansawdd yn amrywio o dda i anfoddhaol….. mewn rhai achosion, mae’r cyflwyniad yn fecanyddol ac ni roddir dim amser i’r disgyblion fyfyrio. *(Glan Clwyd)*

Cyfleoedd i fyfyrio ar faterion ysbrydol **1 Ysgol**

- yn gyffredinol, ni roddir digon o amser i’r disgyblion fyfyrio ar faterion ysbrydol. *(Glyndyfrdwy)*

**ADDYSG GREFYDDOL**

*Crybwyllwyd mewn Materion Allweddol:* **2 Ysgol**

“codi safonau’n gyffredinol trwy roi sylw i’r diffygion a glustnodwyd ym mhob maes pwnc, gyda sylw arbennig yn cael ei roi i’r pynciau hynny y cafwyd eu bod yn anfoddhaol”. *(Glyndyfrdwy)*

“sicrhau bod y gofynion boddhaol ar gyfer addysg grefyddol yn B12 a B13 …. yn cael eu cwrdd”. *(Glan Clwyd)*

**SYLWADAU CADARNHAOL**

Safonau cyrhaeddiad **2 Ysgol**

- yn dda ar draws yr ysgol. *(Stryd Rhos)*
- yn dda yn CA3 a CA4 (AG). *(Glan Clwyd)*
- yn dda yn CA4 a B13 (AC). *(Glan Clwyd)*

Gwybodaeth / Dealltwriaeth o’r Beibl / Storïau’r Beibl **3 Ysgol**

- mae’r disgyblion (CA1) yn gyfarwydd â storïau o’r ddau Destament yn y Beibl a deallant y neges o fewn y storïau. *(Stryd Rhos)*

- yn CA1 mae’r disgyblion yn gyfarwydd ag ychydig o’r storïau adnabyddus o’r Hen Destament a’r Newydd ac maent yn gallu sôn am y prif wyliau Cristnogol, y Nadolig a’r Pasg. *(Glyndyfrdwy)*

- yn CA2 mae’r disgyblion yn gallu galw gwahanol storïau o’r Beibl i gof ac mae gan y disgyblion mwy galluog beth dealltwriaeth o’r negeseuon a’r moeswersi sydd ymhlyg ynddynt. *(Glyndyfrdwy)*
- datblyga disgyblion (CA3) wybodaeth a dealltwriaeth gadarn o gredoau ac arferion Cristnogaeth. *(Glan Clwyd)*

<u>Ffocws / cynnwys / gwybodaeth Gristnogol briodol</u> **2 Ysgol**

- yn CA1 mae gan y disgyblion wybodaeth a dealltwriaeth dda o’r ffydd Gristnogol ac o’i phrif nodweddion. Maent yn gyfarwydd ag adeiladau lleol ble digwydd addoli Cristnogol a gwyddant am le arteffactau megis y bedyddfaen yn y ffordd y mae Cristnogion yn dangos eu ffydd. *(Stryd Rhos)*
- mae disgyblion (CA1) yn gyfarwydd â seremonïau megis priodas a bedydd a deallant brif elfennau addoli Cristnogol. *(Glyndyfrdwy)*

<u>Ymwybyddiaeth o / Cynnwys crefyddau heblaw Cristnogaeth</u> **2 Ysgol**

- yn CA2 mae’r disgyblion yn astudio crefyddau eraill gan ddefnyddio eu gwybodaeth am y cefndir i’r ffydd Gristnogol i wneud cymariaethau â chrefyddau eraill. Gwyddant fod gan bob crefydd ffynhonnell cred, rheolau i’w dilyn, a dathliad i’w gadw. Sylweddolant fod gwahanol ddyddiau o’r wythnos yn gysegredig i wahanol grefyddau a’i bod yn bwysig o fewn cymdeithas amlddiwylliannol bod parch yn cael ei ddangos at bob cred a ffydd. *(Stryd Rhos)*
- mae disgyblion (CA3) yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn o gredoau ac arferion y prif grefyddau eraill a gynrychiolir yng Nghymru.

<u>Cyfleoedd i drafod materion moesol / credoau</u> **2 Ysgol**

- o fewn y gwersi neu mewn amser cylch, rhanna’r disgyblion eu credoau a’u syniadau a thrafodant faterion moesol yn rhydd. Deallant yr angen am reolau o fewn unrhyw gymuned, yn cynnwys yr un yn yr ysgol. *(Stryd Rhos)*
- (CA3) mewn trafodaeth dosbarth, gwaith pâr a grwp, mae (disgyblion) yn cyfrannu’n effeithiol ac mae’r mwyaf galluog yn ehangu ar eu sylwadau yn sylweddol. *(Glan Clwyd)*
- mae ymateb llafar (disgyblion CA4) yn gywir, a gallant gyffredinoli a ffurfio barn. Cynigiant resymau dilys am eu hymatebion personol i gredoau ac arferion crefyddol ac wrth drafod cwestiynau a godir gan brofiad dynol dangosant aeddfedrwydd wrth gynnig barn. *(Glan Clwyd)*
- mae disgyblion CA4(AC) yn mynegi eu hymatebion eu hunain i’r cwestiynau a’r materion sy’n codi yn ystod (eu gwaith). *(Glan Clwyd)*

<u>Gwybodaeth a Dealltwriaeth</u> **1 Ysgol**

- yn CA3, dengys disgyblion ar draws yr ystod gallu ddealltwriaeth dda o'r unedau gwaith a astudir. Mae ganddynt wybodaeth dda am dermau crefyddol. *(Glan Clwyd)*
- yn CA4 darperir cwrs AG priodol sy'n rhoi i ddisgyblion wybodaeth a dealltwriaeth o'r materion ysbrydol, moesol a chymdeithasol o fewn crefydd.

- Mae gan y disgyblion wybodaeth dda am ffeithiau perthnasol ac am y materion a'r problemau sy'n wynebu cymdeithas a'r unigolyn ar hyn o bryd. *(Glan Clwyd)*

<u>Y Cwricwlwm Cymreig mewn AG</u> **1 Ysgol**

- mae'r disgyblion yn gwybod am bobl enwog yng Nghymru a thu hwnt sydd wedi gwasanaethu pobl eraill oherwydd eu cred eu bod yn cyflawni ewyllys Duw. *(Stryd Rhos)*

<u>Sgiliau ymchwil</u> **1 Ysgol**

- dengys gwaith cwrs (CA3) sgiliau da wrth chwilio am wybodaeth o wahanol ffynonellau. *(Glan Clwyd)*
- datblyga disgyblion CA4 (AC) ystod o sgiliau sy'n eu galluogi i ymchwilio i grefydd a phrofiad dynol drostynt eu hunain. *(Glan Clwyd)*

<u>Effaith crefydd ar fywyd</u> **1 Ysgol**

- mae disgyblion CA4 (AC) yn ymwybodol o'r modd y mae credoau crefyddol pobl yn effeithio ar eu ffyrdd o fyw, er enghraifft, arwyddocâd priodas Iddewig, a'i gwerth a'i phwysigrwydd i fywyd a ffydd Iddewig. *(Glan Clwyd)*
- mae'r disgyblion (CA4) yn elwa ar y cyfleoedd a roddir i weithio mewn grwpiau, i wneud penderfyniadau, mynegi barn a thrafod o fewn y dosbarth. *(Glan Clwyd)*
- mae disgyblion AC (CA4) yn cydweithredu'n dda iawn mewn parau a grwpiau i gasglu gwybodaeth, dod i benderfyniad a chyflwyno gwybodaeth yn gywir. *(Glan Clwyd)*

<u>Gofyn cwestiynau</u> **1 Ysgol**

- mae'r disgyblion (CA3) yn datblygu'r gallu i ofyn cwestiynau treiddgar. *(Glan Clwyd).*

<u>Ymateb yn gadarnhaol / adeiladol</u> **1 Ysgol**

- gall disgyblion (CA3) ymateb yn adeiladol pan gyflwynir credoau heblaw eu credoau eu hunain iddynt. *(Glan Clwyd)*

<u>Gwaith / sgiliau ysgrifenedig</u> **1 Ysgol**

- (CA3) mae'r disgyblion mwyaf galluog yn ysgrifennu darnau estynedig sy'n dangos dealltwriaeth dda o'r maes llafur. *(Glan Clwyd)*

- mae myfyrwyr Bl 13 yn datblygu'r gallu i ddadansoddi, dehongli a phwyso a mesur yn feirniadol yr wybodaeth a gesglir o ffynonellau eraill yn dda iawn. *(Glan Clwyd)*

Defnydd TGC

- gwna (disgyblion CA3) ddefnydd effeithiol o TGC (mewn gwaith cwrs). *(Glan Clwyd)*

Cynnydd / dealltwriaeth o weddi **1 Ysgol**

- mae disgyblion yn CA2 yn gallu ysgrifennu eu gweddïau eu hunain ac yn deall pwrpas gweddi. *(Glyndyfrdwy)*

Canlyniadau arholiadau **1 Ysgol**

- mae canlyniadau arholiadau allanol yn dda. *(Glan Clwyd)*

Dim diffygion **1 Ysgol**

- nid oes dim diffygion arwyddocaol. *(Stryd Rhos)*

SYLWADAU NEGYDDOL:

Safonau cyrhaeddiad **1 Ysgol**

- mae safonau yn y ddau gyfnod allweddol yn anfoddhaol. *(Glyndyfrdwy)*

Cynllun gwaith **1 Ysgol**

- Nid oes gan yr ysgol gynllun gwaith wedi'i seilio ar ofynion Maes Llafur Cytûn yr AALl. *(Glyndyfrdwy)*

Diffyg dyfnder gwybodaeth **1 Ysgol**

- ar sail tystiolaeth a dynnwyd o'r gwaith a gwblhawyd, mae gwybodaeth y disgyblion am y pynciau a gynhwysir yn y Maes Llafur Cytûn yn arwynebol. *(Glyndyfrdwy)*

Gwybodaeth am / Cynnwys crefydd heblaw Cristnogaeth **1 Ysgol**

- mae gwybodaeth a dealltwriaeth y disgyblion o grefyddau eraill y byd yn gyfyngedig ac nid ydynt yn gallu gwneud cymariaethau rhwng Cristnogaeth a chrefyddau eraill. *(Glyndyfrdwy)*

Gwaith ysgrifenedig **1 Ysgol**

- nid yw'r disgyblion yn cynhyrchu darnau estynedig o waith ysgrifenedig neu faterion sy'n gysylltiedig ag addysg grefyddol. *(Glyndyfrdwy)*

**<u>CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL (CYSAG)</u>**

**<u>DYDD MAWRTH, 3YDD GORFFENNAF, 2001</u>**

**EITEMAU RHIF 4, 5, 6 A 7 DDIM AR GAEL AR FFURF ELECTRONIG**